25ain o Fai 2021

Annwyl Gynghorydd,

Gwysir chwi i gyfarfod o Gyngor Tref Frenhinol Caernarfon i'w gynnal Nos Fawrth, 1af o Fehefin 2021 am 6.00 o'r gloch yr hwyr.

Oherwydd Covid-19 bydd y cyfarfod yn cymryd lle o'ch cartref, ar lein drwy ddefnyddio system "Zoom".

Bydd gwahoddiad ffurfiol i'r sustem trwy "Zoom" yn cael ei anfon atoch cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Yn gywir,

Sion Wyn Evans
Clerc y Dref

Rhaglen

1.Ymddiheuriadau

2.Cyhoeddiadau'r Maer

3.Datgan Buddiant Personol

4.Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

5.Cofnodion

I gadarnhau'r cofnodion canlynol (yng nghefn y rhaglen):-

(i) Cyngor Llawn, 4ydd o Fai 2021 (Atodiad **Gwyrdd**).
(ii) Cyfarfod Blynyddol, 20fed o Fai 2021 (Atodiad **Gwyrdd**).

6. Cwmni Hyd Braich

Cyflwyniad gan Rhian George, Cyngor Gwynedd o ran yr opsiynau a'r goblygiadau o ran y Cyngor Tref yn sefydlu Cwmni Hyd Braich.

7.Cyfrifon

I gymeradwyo'r biliau rhoddion a chyflogau i'w talu.

8. Cyfrifon Incwm a gwariant a chysoni cyfrifon

Cyflwyno gwybodaeth o ran:
(a) Diwedd y flwyddyn ariannol 2020/21 (Copi ynghlwm).
(b) Mai 2021 (Copi ynghlwm).

9. Archwiliad 2020/21

Cyflwyno gwybodaeth am Archwiliad 2020/21 (copi ynghlwm).

10.Cyfarfod cyntaf ar ôl cyfarfod blynyddol

Gan mai hwn yw'r cyfarfod cyntaf ar ôl y Cyfarfod Blynyddol, trafod yr eitemau canlynol (mae copïau o'r papurau perthnasol ynghlwm):

(i) Adolygu trefniadau unrhyw ddirprwyo i bwyllgorau / is-bwyllgorau
(ii) Adolygu cylch gorchwyl pwyllgorau
(iii) Derbyn enwebiadau ar gyfer pwyllgorau presennol
(iv) Enwebiadau cyrff allanol.
(v) Penodi unrhyw bwyllgorau newydd.
(vi) Mabwysiadu rheolau sefydlog
(vii) Mabwysiadu rheolau ariannol
(viii) Mabwysiadu cod ymddygiad.
(ix)Mabwysiadu rhestr asedau

(x) Mabwysiadu asesiad risg ariannol
(xi)Adolygu aelodaeth y Cyngor / neu weithwyr o gyrff eraill
(xii) Adolygu trefniadau cwynion – ar y wefan
(xiii) Adolygu polisïau – ar y wefan – sylwadau i'r Clerc o flaen llaw
(xiv) Penodi Archwilydd Mewnol 2021/22

11. Digwyddiadau 2021

Cyflwyno gohebiaeth gan Reolwr Digwyddiadau Cyngor Gwynedd yn gofyn am farn am ddigwyddiadau sy'n bwriadu cymryd lle yn ystod 2021 (copi ynghlwm).

12. Cyflenwad Trydan

Cyflwyno gohebiaeth gan Business Utility Renewals yn cynnig opsiynau ar gyfer cyflenwad trydan Adeilad yr Institiwt (copi ynghlwm).

13. Cysgodfa dros yr Aber

Cyflwyno e-bost gan Swyddog Morwrol Cyngor Gwynedd yn tynnu sylw at gyflwr difrifol cysgodfa Tros Yr Aber ac yn ceisio barn y Cyngor Tref ar ddyfodol y gysgodfa (copi ynghlwm).

14. Drysau Agored 2021

Cyflwyno e-bost yn rhoi gwybodaeth ar Ddrysau Agored 2021 (copi ynghlwm).

15. "World Refill Day"

Cyflwyno e-bost yn rhoi gwybodaeth ar "World Refill Day" (copi ynghlwm).

16. Glyn Rhonwy

Cyflwyno gohebiaeth ar gynlluniau yn Glyn Rhonwy (copi ynghlwm).

17. Datganiad Ysgrifenedig: Gweithredu Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (22 Mawrth 2021)

Cyflwyno gwybodaeth am y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (22 Mawrth 2021) (copi ynghlwm).

18. Cwestiynau

19. Cau Allan y Wasg a'r Cyhoedd

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.

20. Grant CaerAilGyfle

Cyflwyno adroddiad ysgrifenedig yn rhoi diweddariad ar yr uchod (copi ynghlwm).